



Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Ebrill 2025 – Mawrth 2026



**Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal**

Cynnwys

Rhagair	3
Trefniadau Goruchwyllo Cydymffurfiaeth	4
Asesu Cydymffurfiaeth	4
Gwaith a wnaed yn 2025-2026	6
Gwaith sydd i ddod 2026-2027	7

Rhagair

Dyma ddegfed adroddiad blynyddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (“y Tribiwnlys”) ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

Mae dwy ran i'r Tribiwnlys, sef yr ysgrifenyddiaeth a'r Aelodau. Mae'r ddwy ran yn gweithio gyda'i gilydd, yn ystod y broses apelio a hawlio, gan wneud tasgau gwahanol. Yr aelodau yw:

- Llywydd y Tribiwnlys, hynny yw, yr arweinydd barnwrol.
- Is-lywydd.
- Cadeiryddion sy'n gyfreithwyr.
- Aelodau proffesiynol sy'n syrfewyr siartredig.
- Aelod Lleyg.

Mae'r Tribiwnlys, ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae aelodaeth y Tribiwnlys yn cynnwys 19 aelod cyfreithiol, 11 syrfewr a 7 aelod lleyg. O'r rhain, mae gan y Tribiwnlys 6 aelod (3 aelod cyfreithiol, 2 syrfewr ac un aelod lleyg) sydd â sgiliau Cymraeg cryf, a gall y Tribiwnlys gynnull panel llawn (hynny yw, cadeirydd sy'n gyfreithiwr, aelod proffesiynol ac aelod lleyg) a all glywed a chynnal gwrandawriad llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywydd y Tribiwnlys yn siaradwr Cymraeg rhugl.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am weinyddu tribiwnlysoedd ac yn ymdrin â phob ymholiad ffôn a phob ymholiad ysgrifenedig. Gweision sifil yw'r rhain a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Mae gan dîm ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys un aelod sy'n rhugl yn y Gymraeg, ac mae'r tîm yn gallu cael cymorth gan staff eraill Uned ehangach Tribiwnlysoedd Cymru, yn ôl yr angen. Mae Pennaeth Tribiwnlysoedd Cymru hefyd yn siaradwr Cymraeg rhugl.

Dyddiad cyhoeddi: 30/09/2026

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau: rpt@llyw.cymru

Trefniadau Goruchwyllo Cydymffurfiaeth

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol hwn gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd gan Lywydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

Mae'r adroddiad ar gael ar wefan y Tribiwnlys, ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod am ei gyhoeddi.

Asesu Cydymffurfiaeth

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau drwy'r camau canlynol:

- Rhoi canllawiau i staff ar sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn ac ateb negeseuon e-bost.
- Darparu templedi ar gyfer llythyrau sy'n cynnig cyfle i ddefnyddwyr y Tribiwnlys gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae llythyrau a negeseuon e-bost oddi wrth y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol yn datgan bod gohebiaeth yn cael ei chroesawu yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau. Mae fersiynau Saesneg y dogfennau a'r ffurflenni a gynhyrchir gan y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol sy'n datgan eu bod ar gael yn y Gymraeg, ac y gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno'r holl wybodaeth i'r Tribiwnlys yn y Gymraeg.
- O fis Mawrth 2024, mae cwestiwn dewis iaith newydd wedi'i gynnwys yn y ffurflenni, ac ail gwestiwn nad yw'n orfodol yn gofyn "Os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg ac wedi nodi Saesneg fel eich dewis iaith, byddem yn croesawu adborth i gael gwybod am yr hyn sy'n eich rhwystro rhag defnyddio'r Gymraeg mewn Tribiwnlys". Caiff yr ymatebion eu monitro.
- Sicrhau bod pawb yn deall bod darpariaeth ar waith i gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg ac y gall unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg ar unrhyw adeg yn ystod gwrandawriad.
- Mae pob tudalen o'n gwefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae darpariaeth i wrandawiadau cyfarwyddo, gorchmynion a phenderfyniadau gael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio system ffôn drwy Microsoft Teams. Mae'r Tribiwnlys yn defnyddio'r system hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 drwy sicrhau y bydd gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwyso 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwyso 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.

Defnyddio ein gwasanaethau yn 2025-2026

Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law	198
Ceisiadau wedi'u prosesu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog	0
Cyfanswm y gwrandawiadau a gynhelir	91
Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg	0

Gwefannau

Nodir isod ddadansoddiad o faint o weithiau yr ymwelwyd â thudalen hafan Gymraeg a Saesneg Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

	Saesneg	Cymraeg	Cyfanswm
Nifer yr ymweliadau â'r dudalen	4,024	59	4,083

Nodwch: Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys ymweliadau gan ddefnyddwyr sy'n gwrthod cwcis pan fyddant yn ymweld â'r wefan.

Safonau Lluio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Er hynny, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar ddarpariaeth ein gwasanaethau yn Gymraeg.

Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio'r Tribiwnlys (sy'n manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Lluio Polisiâu a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys: www.residentialproperty.gov.wales/sites/residentialproperty/files/2019-01/welsh-lang-compliance-notice-en.pdf.

Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a ddaw i law, os oes rhai, sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau.

Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

Gwaith a wnaed yn 2025-2026

	Cam gweithredu	Cynnydd
1.	Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaethau i nodi'r hyn sy'n eu rhwystro rhag rhyngweithio â'r Tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.	Amcan ar y gweill. Mae proses wedi'i chynllunio i gasglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr, ac mae'r holl ffurflenni cais yn gofyn i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg ac sydd heb ddewis rhyngweithio yn Gymraeg â'r Tribiwnlys nodi eu rhesymau am beidio â gwneud hynny. Mae'r data hyn wedi'u casglu ers mis Mawrth 2024. Mae'r data a gesglir yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i'r Arweinydd Barnwrol bob chwarter. Byddwn yn parhau i gasglu a dadansoddi'r data sy'n deillio o'r cam gweithredu hwn.
2.	Nodi gwelliannau y gellir eu gwneud a'u rhoi ar waith yn ystod 2025-26 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein Tribiwnlysoedd.	Amcan ar y gweill. Rydym wedi nodi gwelliannau y gellir eu gwneud i'r wefan a fydd yn galluogi hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym yn gweithio gyda'n hadran TG ar hyn o bryd i weithredu'r gwelliannau hynny.
3.	Paratoi Dogfen sy'n amlinellu gofynion Safonau'r Gymraeg i'w rhannu â holl Aelodau'r Tribiwnlys.	Amcan ar y gweill. Mae'r Ddogfen wedi'i pharatoi a bydd yn cael ei dosbarthu i holl Ddeiliaid Swyddi Barnwrol yn ystod 2026-27.
4.	Mesur cydymffurfiaeth Staff y Tribiwnlys â safonau'r Gymraeg drwy gwblhau hunanasesiad.	Amcan ar y gweill. Yn sgil pwysau ar draws y Tribiwnlysoedd yn ystod y cyfnod hwn, ni fu'n bosibl cynnal yr hunanasesiad yn 2025-26. Caiff hwn ei gynnal yn ystod hydref 2026.
5.	Diweddarau'r asesiad o sgiliau Cymraeg Deiliaid Swyddi Barnwrol.	Amcan ar y gweill. Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn asesu ac yn diweddarau gwybodaeth am sgiliau Cymraeg Deiliaid Swyddi Barnwrol yn barhaus. Mae gwybodaeth am Ddeiliaid Swyddi Barnwrol newydd yn cael ei chofnodi ar ôl eu penodiad, ac adolygir yr wybodaeth a gedwir am sgiliau iaith pob Deiliad Swydd Farnwrol bob chwe mis.

Gwaith sydd i ddod 2026-2027

- Adolygu templedi gwahoddiadau i gyfarfodydd er mwyn sicrhau eu bod yn unol â safonau 25 a 25A Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y Tribiwnlys.
- Gwneud defnydd ehangach o logo oren y cynllun Iaith Gwaith ar ffurflenni a chyhoeddiadau'r Tribiwnlys, er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Mesur cydymffurfiaeth staff y Tribiwnlys â safonau'r Gymraeg drwy gwblhau hunanasesiad.